Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

23.09.26

Annwyl Rieni,

**Parthed: Cystadleuaeth Traws Gwlad Dyffryn Clwyd 23/09/26**

Llongyfarchiadau mawr i'r 99 o blant o Ysgol Pen Barras a fu'n cystadlu bore yma yng Nghystadleuaeth Rhedeg Traws Gwlad Ysgolion Dyffryn Clwyd. Braf iawn oedd gweld cymaint o ddiddordeb mewn rhedeg ymhlith disgyblion Pen Barras!

Cafwyd rasys unigol i fechgyn a merched Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6, ac ar ddiwedd y cystadlu dyfarnwyd y timau llwyddiannus yn ôl eu hoedran, ar sail safleoedd y rhedwyr ymhlith y 25 cyntaf ym mhob ras.

**Dyma'r canlyniadau:**

- Tîm Merched Blynyddoedd 3 a 4: **1af – Ysgol Pen Barras**
- Tîm Bechgyn Blynyddoedd 3 a 4: **2il – Ysgol Pen Barras**
- Tîm Merched Blynyddoedd 5 a 6: **2il – Ysgol Pen Barras**
- Tîm Bechgyn Blynyddoedd 5 a 6: **2il – Ysgol Pen Barras**

Diolch i'r holl rieni a gefnogodd y gystadleuaeth fore yma ar gaeau gwlyb Cae Ddol, Rhuthun. Doilch arbennig hefyd i'n rieni gwirfoddolwyr am gynorthwyo'r staff yn ystod y bore.  Er nad oedd y tywydd yn wych, cafwyd cystadlu brwd a digon o hwyl. Rhaid canmol ymddygiad y disgyblion hefyd drwy gydol y bore: roeddech yn wych!

Roedd aelodau o Glwb Rhedeg Harriers Dinbych ymhlith y gwirfoddolwyr a fu'n trefnu'r achlysur, ac roeddent hefyd yn annog y rhedwyr i ystyried ymuno â'r clwb. Cynhelir sesiynau ymarfer ar nos Fawrth a nos Iau ar gaeau Ysgol Uwchradd Dinbych.

Dilynwch y ddolen ganlynol am ragor o wybodaeth:
https://www.denbighharriers.com/

Yn gywir,

Dyfan Phillips a Staff Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

Dear Parents,

**Re: Vale of Clwyd Cross Country Competition 23/09/26**

A huge congratulations to the 99 pupils from Ysgol Pen Barras who competed this morning in the Vale of Clwyd Schools Cross Country Running Competition. It was wonderful to see so much enthusiasm for running amongst the pupils of Pen Barras!

There were individual races for boys and girls in Years 3, 4, 5 and 6, and at the end of the competition, the successful teams were awarded according to age group, based on the finishing positions of runners placed within the top 25 in each race.

**The results were as follows:**

- Year 3 and 4 Girls' Team: **1st – Ysgol Pen Barras**
- Year 3 and 4 Boys' Team: **2nd – Ysgol Pen Barras**
- Year 5 and 6 Girls' Team: **2nd – Ysgol Pen Barras**
- Year 5 and 6 Boys' Team: **2nd – Ysgol Pen Barras**

Thank you to all the parents who supported the competition this morning on the wet fields of Cae Ddol, Ruthin. Huge thanks also to our parent volunteers for supporting staff throughout the morning. Although the weather wasn't particularly kind to us, there was some excellent competition and plenty of fun. We must also praise the pupils for their behaviour throughout the morning: **they were excellent!**

Members of Denbigh Harriers Running Club were amongst the volunteers who helped organise the event, and they were also encouraging runners to consider joining the club. Training sessions are held on Tuesday and Thursday evenings at Denbigh High School playing fields.

Please follow the link below for further information:

https://www.denbighharriers.com/

Kind regards,

**Dyfan Phillips and the Staff of Ysgol Pen Barras**